

## Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain Orffennaf 2014

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Janet Charlton, Marion Bettenev, Gareth Parry, Gwawr Jones, Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Karen Pugh,  
Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

#### Y diweddar Medwen Hughes

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth y Cyngorydd Medwen Hughes a oedd bob amser yn aelod brwdfrydig a gwerthfawr o'r Cyngor, ac y byddai'n golled fawr ar ei hol yn y gymuned. Dywedodd y clercc iddo anfon gair o gydymdeimlad at y teulu ar ran y Cyngor.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Fehefin 2014.

Materion yn Codi :

#### [1] Yr Heddlu

[a] Dywedodd y clercc nad oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law gan SCHG Phil Gales ynglun a chamerau a osodwyd yn ddiweddar ar briffordd yr A5.

[B] Pont-y-Pair: Dywedodd y Cyng. Elisabeth Roberts fod aelod y Cynulliad Janet Finch Saunders o'r farn nad oedd arian ar gael i adeiladu pont fechan.

Penderfynwyd gwahodd yr Aelod i gyfarfod nesaf y Cyngor.

#### [1.1] Arwyddion/Poster

Penderfynwyd gofyn i ACPE i gynnal adolygiad o'r arwyddion a'r posteri yn y pentref.

#### [1.2] Prosiect Uwch Gludiant Betws

Croesawyd Mr Glenn Evans i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig ar gyfer prosiect uwchgludiant o'r pentref i Lŷn Elsie. "Byddai'r prosiect os yn llwyddiannus meddai o fudd i fusnesau lleol a byddai hefyd yn creu o bosib cyfleoedd cyflogaeth". Penderfynwyd cefnogi'r prosiect mewn egwyddor.

#### [1.4] Toiledau Ffordd yr Orsaf

Cytunodd y Cyng. E Roberts i adrodd yn ôl ar y trefniadau ar gyfer tal mynediad i ddefnyddio'r toiledau sydd newydd gael ei hadnewyddu.

#### [1.5] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-coed

Nodwyd ymateb gan Howard Williams Jones [Trenau Arriva] bod y gwaith cynnal a chadw yn debygol o gael sylw ar ôl 2019. Cytunodd y Cyng. E Roberts i wneud ymholiadau pellach.

#### [1.6] Linellau Melyn gyferbyn a Gwestai'r Glan Aber ar Gwydr

Gan nodi'r oedi hir, cytunodd y Cyng E Roberts i wneud ymholiadau.

#### [1.7] Arwyddion Gwybodaeth Twristiaeth/ Rhaeadr Ewynnol

Cytunodd pawb i ystyried lleoliadau priodol ar gyfer arwyddion. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, y clercc i gysylltu â Mr Glenn Evans i geisio caniatâd i osod un arwydd ar fin ffordd yr A5 ar y chwith ychydig cyn cyrraedd gwesty'r Waterloo.

#### [1.8] Goleuadau Bro Gethin

Cytunodd y Cyng E Roberts wneud ymholiadau ynglŷn ar gŵyn ers amser maith nad oedd golau ar y lampau ym Mro Gethin.

Y Brif Agenda

[1.9] Materion Cynllunio

[a] Estyniad i ystafell wely, lolfa a porch. Swn-y- Nant, 17 Gethin Terrace , Pentre Du.

[b] Newid defnydd rhan o swyddfa i ystafell archebu llogi beics. Antur Hwb Eryri, Uned C Stablau'r Royal Oak.

[c] Estyniad, Cyrau View, Betws-y-Coed.

[d] Cadw safle Trosglwyddydd Offer Telathrebu. Clogwyn Dinas.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r pedwar cais uchod.

[e] Cais ol-weithredol i gadw gwaith celf metel a osodwyd ar wal Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed. Penderfynwyd i fynegi pryder y Cyngor ynglŷn ag ymylon miniog y gwaith metel, ond i adael y mater yn nwylo'r APCE.

[2] Materion Ariannol

[a] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol : Nodwyd nad oedd unrhyw fater wedi ei nodi gan yr archwiliwr allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddiwedd Mawrth 2014.

[b] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod Mehefin 2014.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mehefin 2014.

[2.1] Boots UK

Cyfeiriodd y clerc at adroddiad oddiwrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gwrthod cais gan Boots UK i ddarparu gwasanaeth fferyllol yn y pentref.

[2.2] Pentre' Du

Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflymder cerbydau, a bod plentyn ieuanc bron wedi cael ei daro. Y clerc i wneud cais am arwydd ychwanegol gyferbyn a'r cae chwarae.

[2.3] Materion Amrywiol

Y clerc i ddilyn ymlaen gyda'r canlynol :

[a] Carthion yn amlwg yn yr afon Llugwy ger Ffermdy'r Royal Oak.

[b] Enwau gwreiddiol wedi ei newid ar anheddau'r gymuned.

[c] Wal ar fin yr A5 gyferbyn a gwersyll Fferm yr Hendre wedi gogwyddo.

[d] Gwter wedi tagu ger Mairlys ar y ffordd sy'n arwain i Foduron Betws.

[e] Cerrig ar goll o wal Ffordd yr Orsaf a'r wal ar fin yr A5.

[f] Ceisio arwydd ar waelod allt Coedcynhelir yn rhybuddio nad yw'r ffordd yn addas ar gyfer cerbydau trwm.

[g] Tynnu sylw'r Comisiwn Coedwigaeth i faterion ysbwriel a.y.b. ar y llwybr aml bwrpas.

[2.4] Adroddiad o Ddamwain

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Gyfreithwyr Gamllins yn rhybuddio bod hawl yn erbyn insiwrwyr y Cyngor Cymuned yn berthnasol i ddamwain i aelod o'r cyhoedd wrth adael y neuadd yn Rhagfyr 2013.

[2.5] Cyfeillion Eglwys Saint Mihangel

Nodwyd y bydd yr Ŵyl Flodau yn cael ei chynnal ar Fedi 5ed -7fed. Cytunodd y Cyng Marion Bettenev ddarparu blodau ar ran y Cyngor.

[2.6] Offer Chwaraeon Cae Llan

Penderfynwyd gwahodd Ela V Williams [Swyddog Gwella Capasiti Cymunedol] i gyfarfod y Cyngor ym Mis Med i drafod y posibilrwydd o grant tuag at yr offerynnau.

Cadeirydd \_\_\_\_\_